Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyllid y Loteri Genedlaethol

## Help gyda'ch cais



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cyllid y Loteri Genedlaethol – beth sydd angen i chi ei wybod wrth wneud cais**'.


Ebrill 2021

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen help i'w darllen hi. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych i weld beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Cyflwyniad....4**

**Pobl rydyn ni eisiau eu cefnogi....5**

**Prosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi....6**

**Pwy sydd yn gallu gwneud cais....8**

- Busnesau....8
- Unigolion....12

**Eich prosiect....15**

- Anghenion hygyrchedd....17
- Mathau eraill o brosiectau....19

**Am y cyllid....20**

- Talu am eich hun a’ch tîm....21
- Pethau dydyn ni ddim yn gallu eu cyllido....23

**Pryd i wneud cais....25**

**Y broses gwneud cais....26**

- Cyflwyno eich cais....26
- Asesu eich cais....27

**Help gyda’ch cais....29**

**Sut rydyn ni’n defnyddio eich gwybodaeth....30**

**Cwynion....31**

**Geriau anodd....32**

# Cyflwyniad



Mae'r ddogfen yma am gyllid y **Loteri Lenedlaethol**. A sut i wneud cais am grant. Arian ydy cyllid y **Loteri Genedlaethol** sydd yn gallu helpu i gefnogi prosiectau celfyddydau.




Mae Covid-19 wedi bod yn ddrwg i'r celfyddydau. Mae rheolau aros gartref wedi meddwl bod llawer o brosiectau wedi cael eu canslo.



Mae angen i'r celfyddydau newid y ffordd maen nhw'n gwneud pethau. I adeiladu dyfodol gwell i'r celfyddydau.



Rydyn ni eisiau cefnogi prosiectau sydd â syniadau da i wneud y celfyddydau yn gryfach yn y dyfodol.



Rydyn ni eisiau cefnogi prosiectau celfyddydau sydd yn gwneud bywyd yn well i bobl yng Nghymru.

# Pobl rydyn ni eisiau eu cefnogi



Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau fod i bawb. Mae hyn yn bwysig iawn inni.



Felly fe fyddwn ni'n rhoi llawer o feddwl i **gydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant** pan fyddwn ni'n rhannu'r cyllid yma.








Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pawb yn deg.


Mae **amrywiaeth** yn meddwl cynnwys pobl gyda gwahanol gefndiroedd, fel pobl ddu, Asiaidd a **lleiafrif ethnig**. Mae hefyd yn meddwl cynnwys pobl o ardaloedd mwy tlawd. A phobl o wahanol **rywioldebau**.

Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan.

Pobl **lleiafrif ethnig** ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl erail yn hil gwahanol.

Mae **rhywioldeb** am pwy mae person yn ei hoffi.

# Prosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi




Mae llawer o wahanol fathau o brosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi. Dyma rai enghreifftiau:



- Prosiectau sydd yn meddwl am ffyrdd newydd o fwynhau'r celfyddydau. Yn enwedig ar ôl Covid-19.



- Prosiectau sydd yn helpu busnes celfyddydau i newid. Fel eu bod nhw'n gryfach yn y dyfodol.




- Prosiectau sydd yn helpu pobl **greadigol** i ddysgu sgiliau newydd.



Mae pobl **greadigol** yn meddwl pobl sydd yn gwneud pethau.




- Prosiectau sydd yn dod â mwy o waith a gwybodaeth i Gymru o wledydd eraill.



- Prosiectau sydd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg.



- Prosiectau sydd yn cefnogi pobl **greadigol** Cymreig neu sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.


# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

## Busnesau

### Rheolau gwneud cais busnesau




Mae rheolau i fusnesau sydd yn gwneud cais am gyllid. Rhaid i chi:



- Fod wedi'ch lleoli yng Nghymru. Neu yn y DU.




- Cael cyfrif banc busnes gyda dau berson sydd yn gallu ei ddefnyddio.




- Cael **Polisi Cyfle Cyfartal** wedi'i ddiweddaru a chyfreithiol. Polisi ydy hwn sydd yn gwneud yn siŵr eich bod chi'n gofalu am **gydraddoldeb**.




- Peidio bod mewn dyled inni.



- Peidio cael unrhyw broblemau cyllido gyda ni.



- Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer mwy nag un gronfa, mae angen i chi ddweud wrthyn ni.



- Os oes gennych chi fwy nag un prosiect, rhaid i chi allu eu rheoli nhw i gyd.



- Os ydy eich prosiect yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu **oedolion hyglwyf**:

> **Oedolion hyglwyf** ydy pobl sydd angen cefnogaeth yn eu bywyd o ddydd i ddydd.




  - Mae angen i chi gael **Polisi Diogelu neu Amddiffyn Plant** wedi ei ddiweddaru a chyfreithiol.




  - Rhaid i chi gael **gweithdrefnau diogelwch** ar gyfer pob rhan o'ch prosiect

> Mae **polisi** neu **weithdrefnau diogelwch** yn meddwl rheolau am gadw pobl yn ddiogel.




- Fe fyddwn ni angen prawf mewn ysgrifen bod gennych chi **weithdrefnau diogelwch**.

## Trefn busnes



Mae angen i chi fod wedi eich sefydlu i wneud busnes yn gywir. Er enghraifft mae angen i chi fod yn fusnes neu yn elusen.



Fe fydd angen i chi anfon dogfennau inni i ddangos sut rydych chi wedi cael eich sefydlu.



Os nad ydych chi'n siwr am drefn eich busnes, gofynnwch inni am help.

Dydych chi **ddim yn gallu** gwneud cais am gyllid os:



- Rydych chi mewn adran o'r llywodraeth.




- Rydych chi yn yr ysgol. Mae grantiau eraill i ysgolion.

# Unigolion

## Rheolau gwneud cais unigolion




Mae rheolau i unigolion sydd yn gwneud cais am gyllid. **Rhaid** i chi:




- Wneud cais yn eich enw cyfreithiol eich hun.




- Cael cyfrif banc yn eich enw cyfreithiol.



- Bod dros 18.




- Byw yng Nghymru.



- Profiad o weithio yn y celfyddydau yn barod.



- Gallu dangos inni rhai prosiectau celfyddydau rydych chi wedi gweithio arnyn nhw.

## Unigoloion sydd yn methu gwneud cais

Dydych chi **ddim yn gallu** gwneud cais os:



- rydych chi’n fyfyriwr.



- Mae arnoch chi arian inni neu mae gennych chi broblemau cyllid eraill gyda ni.



Dydyn ni ddim yn gallu talu am eich astudiaethau neu unrhyw hyfforddiant. Ond rydyn ni'n gallu eich helpu chi i gael mynediad i hyfforddiant fel eich bod chi'n gallu adeiladu gyrfa yn y celfyddydau Cymreig.



Dydy rhai busnesau ac unigolion ddim yn cael gwneud cais am arian y **Loteri Genedlaethol**.



Ond rydych chi'n dal i allu gwneud cais. Ysgrifennwch lythyr yn dweud pam nad ydych chi'n gallu cael arian y **Loteri Cenedlaethol**.



Os oes gennych chi gais da, efallai y byddwn ni'n gallu cael arian i chi o rywle arall.

# Eich prosiect

Mae rheolau am ba fathau o brosiectau rydyn ni'n eu cefnogi:




- Rhaid i'ch prosiect fod yn bennaf yng Nghymru.




- Fe ddylai eich prosiect **ychwanegu** at y gwaith rydych chi'n ei wneud yn barod. Ond dim ond yr un peth ag rydych chi'n ei wneud fel arfer.



- Fe ddylai eich prosiect gynnwys gweithio gyda phobl eraill.




- Fe ddylai eich prosiect gael dyddiad dechrau a diwedd.




- Fe ddylai eich prosiect gael ei gyllido gan rywfaint o arian o leoedd eraill hefyd.



Fe fyddwn ni hefyd yn edrych i weld eich bod chi wedi meddwl am **gydraddoldeb, amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Fel cynnwys pobl Fyddar a phobl gyda cholled clyw, pobl anabl a phobl **niwrowahanol** yn eich prosiect.



Pobl **niwrowahanol** ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

# Anghenion hygyrchedd




Rydyn ni eisiau i bob prosiect celfyddydau fod yn **hygyrch**.

Mae **hygrych** yn meddwl rhywbeth sydd yn hawdd i'w gyrraedd neu ei ddefnyddio.




Os ydych chi angen help gyda **hygyrchedd** rhowch wybod inni os gwelwch yn dda.



Os ydy eich cais yn llwyddiannus, rydyn ni'n gallu helpu gyda **chostau cefnogi mynediad**. Arian ychwanegol ydy hwn rydyn ni'n gallu ei roi i chi i'ch cefnogi drwy gydol y prosiect.



Rydych chi'n gallu cynnwys **costau mynediad** i'ch cynulleidfaoedd yn eich cais. Er enghraifft ar gyfer pobl Byddar ac anabl.




Mae rhagor o wybodaeth am wneud eich gwaith yn **hygyrch** yma.




Am ragor o wybodaeth am **gynllun mynediad i waith** y llywodraeth, cliciwch yma.

# Mathau eraill o brosiectau

Os yd eich prosiect mewn llenyddiaeth, ffilm neu gerddoriaeth, rydych chi'n gallu cael cyllid o leoedd eraill.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



**Am brosiectau llenyddiaeth:**

**Gwefan:** www.llenyddiaethcymru.org

**E-bost:** post@llenyddiaethcymru.org

**Ffôn:** 029 20 47 2266



**Am brosiectau ffilm:**

**Gwefan:** ffilmcymruwales.com

**E-bost:** enquiries@ffilmcymruwales.com

**Ffôn:** 029 21 679 369




**Am brosiectau cerddoriaeth:**

**Gwefan:** www.tycerdd.org

**E-bost:** enquiries@tycerdd.org

# Am y cyllid





O Ebrill  2021 i Mawrth 2022, mae gennym ni **£20 miliwn** i gefnogi'r celfyddydau.

**Rydyn ni eisiau cefnogi llawer o wahanol brosiectau celfyddydau. Yn cynnwys:**



- Prosiectau sydd yn helpu pobl i fod yn fwy iach ac i deimlo'n well ar ôl y pandemig.




- Prosiectau sydd yn helpu'r celfyddydau i fynd yn well ac yn gryfach yn y dyfodol. Yn enwedig ar ôl Covid-19.




- Prosiectau sydd yn helpu pobl **greadigol** i ddysgu sgiliau newydd a chreu gwaith newydd.



- Prosiectau sydd yn fwy **cynhwysol**. Fel cael mwy o gymunedau i gymryd rhan yn y celfyddydau.



- Prosiectau sydd yn helpu pobl yng Nghymru i weithio gyda gwledydd eraill.

## Talu am eich hun a'ch tîm



Mae'n bwysig bod pobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau yn cael eu talu yn gywir.



Mae cyllid yn gallu talu am y costau yma. Rhaid i chi gynnwys y costau yma yn eich cais.




Fe ddylai'r costau yma fod yn **safon diwydiant**. Mae hyn yn meddwl y dylech chi dalu i bobl beth maen nhw fel arfer yn cael eu talu yn y celfyddydau.




Ddylech chi ddim talu llai na beth mae'r **llywodraeth** yn ddweud y dylai pobl gael eu talu.



Ddylech chi ddim talu gormod o arian i chi eich hun nac eraill chwaith. Os nad oes gennych chi reswm da dros hynny. Os ydych chi'n meddwl bod angen i chi dalu mwy na £5000 i rywun i weithio ar eich prosect, gofynnwch inni yn gyntaf.



Os nad ydych chi'n siŵr beth ddylech chi dalu i chi eich hun neu eraill, gofynnwch inni am help.

# Pethau dydyn ni ddim yn gallu eu cyllido



Dyma rai o'r pethau dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyllid iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys costau am:



- Cyngor, arian neu ffioedd cyfreithiol.



- Eich rhent a'ch biliau normal.



- Codi arian a **hyrwyddo**.



**Hyrwyddo** ydy gwaith rydych chi'n ei wneud i helpu pobl i wybod am eich prosiect.




- Pethau rydych chi wedi talu amdanyn nhw cyn inni gytuno i roi cyllid i chi.




- Prosiectau amser tymor gydag ysgolion.



Fel arfer dydyn ni ddim yn cyllido costau bwyd a gofal plant. Ond efallai byddwn ni'n gwneud mewn achosion arbennig. Gofynnwch inni am hyn os gwelwch yn dda.


# Pryd i wneud cais




Am hyd at **£10 mil** - rydych chi'n gallu gwneud cais unrhyw amser o Mai 2021



Does dim dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am £10 mil.




Ond dydych chi ddim yn gallu dechrau eich prosiect tan o leiaf **6 wythnos** ar ôl i chi wneud cais.



Os ydych chi eisiau gwneud cais am **fwy** na **£10 mil**, rhaid i chi wneud cais erbyn y dyddiadau cau sydd wedi eu gosod.




Mae'r dyddiadau cau yma i'w gweld ar ein gwefan. Dydych chi ddim yn gallu dechrau eich prosiect tan o leiaf **9 wythnos** ar ôl eich dyddiad cau.

# Y broses gwneud cais

## Cyflwyno eich cais




Fe fydd angen i chi gofrestru i ddefnyddio ein **porth ar-lein** . Efallai y byddwch chi angen rhywfaint o help gyda hyn.



Y **porth ar-lein** ydy lle byddwch chi yn llenwi ac yn cyflwyno eich cais.



Fe fyddwn ni'n edrych ar eich cais i wneud yn siŵr y dylech chi fod yn gwneud cais am y cyllid yma.



Fe fyddwn ni'n edrych i wneud yn siŵr eich bod chi'n gofyn am y swm cywir o arian.



Os oes unrhyw broblemau gyda'ch cais fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi.



Os ydych chi angen help gyda'ch cais, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

## Asesu eich cais



Os ydy popeth yn iawn gyda'ch cais, fe fyddwn ni yn ei **asesu**.



Mae **asesu** yn meddwl y byddwn ni'n edrych arno yn fanwl.



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi arian i bawb.




Felly rhaid inni wneud yn siŵr bod eich prosiect yn iawn ar gyfer y cyllid yma.



Os ydyn ni'n penderfynu rhoi cyllid i chi, fe fyddwn ni yn anfon Derbyniad Dyfarniad  i chi. Ac fe fyddwn ni'n esbonio beth bydd yn digwydd nesaf.



Os ydyn ni'n penderfynu peidio rhoi cyllid i chi, fe fyddwn ni'n gwneud yn siwr eich bod chi'n deall pam.

# Help gyda'ch cais

Os ydych chi angen help gyda'ch cais, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda:




**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733



**Facebook:** Cyngor Celfyddydau Cymru

**Twitter:** @Celf_Cymru

Os ydych chi eisiau siarad â rhywun am syniadau eich prosiect, rydych chi'n gallu cysylltu â'n tîm datblygu:




**E-bost:** datblygu@celf.cymru



**Ffôn:** 03301 242733
**(dewiswch dewis 1, ac yna dewis 4)**

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n credu bod gan bobl yr hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os hoffech chi ddysgu rhagor am hyn ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda.




Oherwydd ein bod ni'n gorff cyhoeddus rhaid inni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn meddwl bod rhywfaint o'ch gwybodaeth yn gallu cael ei weld gan bobl eraill.




Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan **Rhyddid Gwybodaeth**.




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Cyffredinol ar Amddiffyn Data)**. Mae hyn yn meddwl nad ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu heb eich caniatâd chi. Os nad oes deddf wedi cael ei thorri.

Mae **GDPR** yn penderfynu sut rydyn ni'n storio a defnyddio gwybodaeth pobl.

# Cwynion




Os nad ydych chi'n hapus gyda sut rydyn ni'n delio â'ch cais rydych chi'n gallu gwneud cwyn.




Ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda.




Noder os gwelwch yn dda, dydy hyn ddim i apelio ein penderyfniad os nad ydyn ni'n rhoi arian i chi .

# Geriau anodd

### Amrywiaeth
Mae amrywiaeth yn meddwl pobl gyda chefndiroedd gwahanol, fel pobl ddu, Asiaidd a lleiafrif ethnig. Mae hefyd yn meddwl cynnwys pobl o ardaloedd mwy tlawd. A phobl o wahanol rywioldebau.

### Asesu
Mae hyn yn meddwl y byddwn ni'n edrych arno yn fanwl.

### Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn gyfartal.

### Cynhwsiant
Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan

### Hygyrch
Mae hygyrch yn meddwl rhywbeth sydd yn hawdd i'w gyrraedd neu ei ddefnyddio.

### Lleiafrif ethnig
Pobl lleiafrif ethnig ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn hil gwahanol.

### Niwrowahanol
Pobl niwrowahanol ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.Hyrwyddo

### Oedolion hyglwyf
Oedolion hyglwyf ydy pobl sydd angen cefnogaeth yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

### Pobl greadigol

Mae hyn yn meddwl pobl sydd yn gwneud pethau.

### Polisi neu weithdrefnau diogelu
Mae hyn yn meddwl rheolau am gadw pobl yn ddiogel.

### Rhywioldeb
Mae rhywioldeb am bwy mae person yn ei hoffi.